



SHARE gydag Ysgolion Deunyddiau i Athrawon Polisiau Derbyn y Brifysgol a Gwybodaeth Ariannol



This work is licensed under the Creative Commons Attribution 4.0 International License. To view a copy of this license, visit <http://creativecommons.org/licenses/by/4.0/> or send a letter to Creative Commons, 444 Castro Street, Suite 900, Mountain View, California, 94041, USA.

Adran 1: Gwybodaeth Ariannol

Faint mae'n costio i fynd i brifysgol?

Mae'r pecyn gwybodaeth hwn wedi cael ei gynllunio i'w ddefnyddio gan athrawon sy'n gysylltiedig â'r rhaglen SHARE gydag Ysgolion. Mae wedi cael ei ysgrifennu i ddarparu gwybodaeth glir a chryno am oblygiadau ariannol prifysgol a pholisi derbyn cydestunol Prifysgol Caerdydd. Mae'n bwysig pwysleisio bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir ym mis Mai 2014. Y gwefannau a restrir isod fydd yn cynnwys y wybodaeth fwyaf diweddar bob amser.

Yn gyntaf, www.cyllidmyfyrwrycymru.co.uk yw'r wefan orau i gael gwybodaeth am allu fforddio mynd i Brifysgol.

Yn seiliedig ar god post CF5, dyma ddadansoddiad o'r hyn y gallai myfyrwr ei hawlio am ffioedd dysgu, **yn fenthyciadau** ac yn **grantiau**, heb ystyried incwm y cartref. Mae hwn yn giplun o wefan Cyllid Myfyrwyr Cymru:

student finance wales Cymraeg

[You are here... Home > Student Finance Estimate](#)

Student Finance Calculator

Student Finance Estimate

The following assumptions have been made about you based on your age and have not been changed

Based on the following assumptions about you:

You are under 25, single, live with your parents and have no children or adults who are financially dependant on you;	Edit details
You do not want your household income to be taken into account	Edit details
You have not confirmed where you will be studying and/or details of the course you will be studying	Edit details
You do not want more information on Disabled Students Allowance	Edit details
You have not previously studied in Higher Education	Edit details
You have no funding from any other source	Edit details

You could be entitled to the following breakdown

	If you live at your parental home	If you live away from parental home
Maintenance Loan - Paid directly to you	£3020	£3902
Tuition Fee Loan - Paid directly to your college/university	£3685	£3685
Tuition Fee Grant - Paid directly to your college/university	£5315	£5315

[Previous](#) [Save](#)

Options: Save, Print, Apply

More Information: Next steps, Payment information, Repayment Calculator, Budget Calculator

Fel y gwelwch o'r ciplun, gall pob myfyriwr o Gymru (sy'n astudio unrhyw le yn y DU) gael mynediad at **fenthyciadau** ar gyfer ffioedd dysgu a chynhaliaeth o £7,587 os byddant yn byw oddi cartref, neu £6,705 os byddant yn byw gartref. Caiff y benthyciadau hyn eu rheoli gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr. Yn ogystal â hyn, gallwch gael **grant** ar gyfer ffioedd dysgu gwerth £5,315, a ddylai dalu'r gost gyfan. Cofiwch, ni fydd angen ad-dalu'r **grant**, ac nid yw'r symiau uchod yn destun prawf modd – felly nid yw incwm cartref o bwys.

Os **yw** myfyrrwyr eisiau i incwm y cartref gael ei ystyried, a bod eu rhieni, llysrieni neu warcheidwaid yn ennill £50,020 y flwyddyn neu lai, byddant yn gymwys i gael **Grant Dysgu Cynulliad Cymru** i helpu gyda chostau byw. Gan ddibynnu ar incwm y cartref, efallai y byddant yn derbyn **benthyciad** cynhaliaeth is, ond **Grant Cynulliad Cymru** uwch, neu i'r gwrthwyneb. **Canllaw bras** yn unig yw'r tabl canlynol – gallwch gyfrifo'n gywir beth fyddan nhw'n ei dderbyn trwy ddefnyddio'r cyfrifiannell cyllid myfyrrwyr ar y wefan (sydd i'w weld yn y ciplun uchod).

<u>Incwm Cartref Dechrau yn 2014/15</u>	<u>Grant Dysgu Llywodraeth Cymru – uchafswm y grant £5,000 (Prawf modd, ni chaiff ei ad-dalu)</u>	<u>Benthyciad Cynhaliaeth (caiff ei ad-dalu)</u>	<u>Cyfanswm bob blwyddyn</u>
Hyd at £18,500	£5,126.00	£2,639.00	£7,765.00
£18,600	£5,099.00	£2,653.00	£7,752.00
£19,000-£20,000	£4,989.00	£2,708.00	£7,697.00
£20,500	£4,578.00	£2,913.00	£7,491.00
£30,000	£2,099.00	£4,153.00	£6,252.00
£30,500	£1,980.00	£4,212.00	£6,192.00
£40,000	£733.00	£4,836.00	£5,569.00

Ffynonellau cyllid eraill...

Yn ychwanegol at y grantiau a'r benthyciadau y gall myfyrwyr eu derbyn gan Lywodraeth Cymru a'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr, mae Prifysgol Caerdydd yn cynnig bwrsariaethau **ychwanegol** (na chaiff eu had-dalu) os yw incwm y cartref yn is na **£50,020**.

Ceir manylion isod am y bwrsariaethau a gynigir gan y brifysgol ac mae mwy o wybodaeth ar gael ar y dudalen we hon -

<http://www.caerdydd.ac.uk/for/prospective/undergraduate/funding/bursaries.html>

Pwysig: nid oes angen i fyfyrwyr wneud cais am y bwrsariaeth hwn ar wahân i'w cais UCAS. Os byddant yn rhoi eu cod post ac incwm y cartref, byddant yn derbyn y bwrsariaethau'n awtomatig os oes ganddynt hawl iddynt.

Bwrsariaeth Prifysgol Caerdydd

Mae hwn werth £1,000 yn y flwyddyn academiaidd 2013/14.

Bwrsariaeth Cymunedau yn Gyntaf

Os ydynt yn dod o ardal Cymunedau yn Gyntaf, ac mae incwm y cartref yn is na £50,020, byddant yn derbyn naill ai disgownt o £1,000 yn ffi ar gyfer preswylfeydd y brifysgol **neu** £500 o fwrsariaeth teithio ar gyfer y flwyddyn gyntaf. Mae hyn yn **ychwanegol** at Fwrsariaeth Prifysgol Caerdydd o £1,000.

I ddarganfod a yw eich cod post mewn ardal Cymunedau yn Gyntaf, ewch i'r wefan isod:

<http://www.caerdydd.ac.uk/for/prospective/undergraduate/applying/contextual-data/communities-first.html>

Bwrsariaeth i'r Rhai sy'n Gadael Gofal

Os yw myfyriwr yn datgan ar ei ffurflen UCAS ei fod mewn gofal, gall fod yn gymwys i dderbyn £3,000 ychwanegol.

Bwrsariaeth Cam Nesaf

A wnaeth y myfyriwr gymryd rhan yn y rhaglen 'Camu i Fyny i Brifysgol'? Os nad yw'n gymwys i dderbyn bwrsariaeth Cymunedau yn Gyntaf ond cymerodd ran yn y rhaglen hon, yna gall dderbyn bwrsariaeth Cam Nesaf. Mae myfyrwyr yn derbyn £1,000 ym mlwyddyn gyntaf eu hastudiaethau.

Ceir gwybodaeth am y Rhaglen Camu i Fyny ar y wefan hon –

<http://www.caerdydd.ac.uk/universityforall/aspirations/stepup/index.html>

Athrawon! Os nad yw'ch ysgol eisoes yn rhan o'r rhaglen wych hon, cysylltwch â Vicki Roylance, Uwch Swyddog Ehangu Mynediad Caerdydd - RoylanceVJ@caerdydd.ac.uk - 02920 / 870 073

Cofiwch! Mae'r bwrsariaethau uchod **YN YCHWANEGOL** at y benthyciadau a'r grantiau sydd ar gael gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr a Llywodraeth Cymru.

Adran 2: Polisiau Derbyn

Polisi Derbyn Cyd-destunol

Mae Prifysgol Caerdydd yn defnyddio polisi derbyn cyd-destunol i amlygu ymgeiswyr ar gyfer 'ystyriaeth ychwanegol'. Gall sawl ffurf bosibl fod ar yr 'ystyriaeth ychwanegol' hon, gan ddibynnu ar y cwrs y gwneir cais amdano, ond **gall gynnwys cynnig gwarantedig neu gyfweliad gwarantedig**.

Er mwyn cymhwyso ar gyfer 'ystyriaeth ychwanegol', mae'n rhaid bod yr ymgeisydd wedi ticio **unrhyw un** o'r tri dangosydd isod:

1. Anfantais economaidd gymdeithasol; ymgeisydd sy'n byw mewn ardal Cymunedau yn Gyntaf
2. Cymdogaeth cyfranogiad isel
3. Mewn gofal; ymgeiswyr sydd wedi treulio amser mewn gofal ac sydd wedi nodi hyn ar eu ffurflen UCAS

Mae mwy o fanylion ar dudalennau 'Gwneud cais' gwefan Prifysgol Caerdydd: <http://www.caerdydd.ac.uk/for/prospective/undergraduate/applying/contextual-data.html>

Yn ogystal â'r gweithrediadau penodol hyn, bydd pob adran y brifysgol yn ystyried y ffactorau canlynol yn achos ymgeiswyr â dangosyddion cyd-destunol:

Cyflawniadau Anacademaidd: Cydnabyddir y gall ymgeiswyr o gefndiroedd difreintiedig fod wedi cael llai o gyfleoedd i gyflawni profiad gwaith neu gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol.

Cyfweliad: Mae ymgeiswyr â dangosyddion cyd-destunol yn debygol o gael llai o gyfleoedd i baratoi ar gyfer cyfweliad e.e. hyfforddiant mewn sgiliau cyfweliad, cyfweliadau ymarfer a.y.y.b.

Rhowch wybod i dîm SHARE gydag Ysgolion os oes unrhyw beth arall y byddai'n ddefnyddiol i ni ei gynnwys yn y pecyn gwybodaeth hwn – sharewithschools@gmail.com